



Amodau Cofrestru 2022/23

Cytundeb Atodol (Gwaith Cymdeithasol)

Cynnwys

Cwmpas.....	3
Yr hyn y mae'r ddogfen hon yn ei gwmpasu	3
Yr hyn nad yw'r ddogfen hon yn ei gwmpasu	3
Prentisiaethau.....	3
Cytundebau Atodol a ddisodlir gan y ddogfen hon.....	4
Crynodeb o'r prif newidiadau ers y fersiwn flaenorol	4
Dogfennaeth Gysylltiedig	5
Cyfeiriwch at y ddogfennaeth ganlynol ar y cyd â'r ddogfen hon:.....	5
Gwerthoedd Siarter Myfyrwyr Y Brifysgol Agored	6
Ymrwymiad i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn y Brifysgol Agored	6
Rhoi Gwybod mewn Lle Diogel.....	7
Cyflwyniad	7
Prif delerau'r Cytundeb Ychwanegol	8
1 Crynodeb o brif delerau'r Cytundeb Ychwanegol	8
2 Safonau Proffesiynol a Gweithdrefnau Addaswydd i Ymarfer	9
3 Cyfnodau Ymarfer Dysgu.....	11
4 Terfynu Nawdd/Cyflogaeth.....	13
5 Terfynu cofrestriad	14
6 Eich Astudiaethau	15
7 Rheolau Ffioedd sy'n benodol i'r Rhaglen Gwaith Cymdeithasol i Israddedigion	16
8 Rheolau Ffioedd sy'n benodol i'r Rhaglen Gwaith Cymdeithasol i Raddedigion	17
9 Rhannu gwybodaeth a Diogelu Data.....	18
10 Rhoi'r gorau i'ch astudiaethau neu eu gohirio.....	20
Rhestr termau	21
Aseswr Ymarfer (Cymru) neu Addysgwr Ymarfer (Lloegr a'r Alban).....	21

Rhif y fersiwn: 1.0	Cymeradwywyd gan: Cynrychiolydd y Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Academaidd
Yn weithredol o: 1 Awst 2021	Dyddiad adolygu: 1 Mawrth 2022

Mae'r Brifysgol Agored yn gorfforedig drwy Siarter Frenhinol (RC 000391), yn elusen eithriedig yng Nghymru a Lloegr ac yn elusen gofrestredig yn yr Alban (SC 038302). Mae'r Brifysgol Agored wedi'i hawdurdodi a'i rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol mewn perthynas â'i gweithgaredd eilaidd, sef broceru credyd.

Awdurdod Rheoleiddio.....	21
Cyflogwr	21
Cyfnod Ymarfer Dysgu	21
Cymhwyster Gwaith Cymdeithasol	21
Cytundeb Ymarfer Dysgu.....	21
Darparwr Lleoliad.....	21
Prentis/Dysgwr	22
Noddwr.....	22
Rheolwr Cyflwyno'r Rhaglen Brentisiaeth (APDM).....	22
Tiwtor Ymarfer	22
Eglurhad pellach o'r Cytundeb Atodol hwn.....	23
Tîm Cymorth Myfyrwyr.....	23
Prentisiaethau'r Brifysgol Agored.....	23
Ar gyfer Prentisiaid sy'n astudio Gwaith Cymdeithasol.....	23
Y Brifysgol Agored yng Nghymru	24
I siaradwyr Cymraeg.....	24
Y Brifysgol Agored yn yr Alban	24
Y Brifysgol Agored yn Iwerddon (Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon)	24
I Ffyrwyr newydd o'r tu allan i'r DU (ac eithrio Gweriniaeth Iwerddon).....	25
Fformat amgen.....	25
Atodiad A.....	26

Rhif y fersiwn: 1.0	Cymeradwywyd gan: Cynrychiolydd y Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Academaidd
Yn weithredol o: 1 Awst 2021	Dyddiad adolygu: 1 Mawrth 2022

Cwmpas

Yr hyn y mae'r ddogfen hon yn ei gwmpasu

Mae'r Cytundeb Atodol hwn yn gymwys i fyfyrwyr/prentisiaid sydd wedi cael eu derbyn ar raglen Gwaith Cymdeithasol y Brifysgol Agored ac mae'n nodi'r telerau ychwanegol sy'n ymwneud ag astudio cymhwyster Gwaith Cymdeithasol.

Gellir diweddarau'r ddogfen hon drwy gydol y flwyddyn er mwyn cywiro gwallau, gwella eglurder neu hygyrchedd, neu fyfrio ar newidiadau i ofynion cyfreithiol neu reoliadol. Os gwneir y diwygiadau hyn ar ôl i chi gofrestru, rhoddir gwybod i chi drwy e-bost am unrhyw newidiadau sylweddol i'r ddogfen hon.

Yr hyn nad yw'r ddogfen hon yn ei gwmpasu

Nid yw'r Cytundeb Atodol hwn yn gymwys i fyfyrwyr/prentisiaid nad ydynt wedi cael eu derbyn eto ar raglen Gwaith Cymdeithasol, myfyrwyr sy'n astudio modiwlau a allai gyfrif tuag at gymhwyster Gwaith Cymdeithasol y tu hwnt i'r rhaglen, na myfyrwyr sy'n astudio cymwysterau neu raglenni dysgu seiliedig ar waith eraill, megis Nyrsio.

Nid yw'n gymwys i fyfyrwyr/prentisiaid sy'n astudio modiwlau neu gymwysterau safonol Y Brifysgol Agored, a ddylai gyfeirio at yr [Amodau Cofrestru](#) ar gyfer y flwyddyn academiaidd berthnasol.

Prentisiaethau

Os ydych yn astudio prentisiaeth, **nid** yw'r rhannau canlynol o'r Cytundeb Atodol Amodau Cofrestru hwn yn gymwys:

- Cymal 1.1b "(ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio cymhwyster Gwaith Cymdeithasol nad ydynt yn rhan o raglen brentisiaeth)". Yn hytrach, dylai prentisiaid gyfeirio at gymal 1.1c "ar gyfer dysgwyr sy'n astudio cymhwyster Gwaith Cymdeithasol ar raglen brentisiaeth".
- Cymal 3.4 "Myfyrwyr sy'n astudio cymhwyster Gwaith Cymdeithasol (nad ydynt yn rhan o raglen brentisiaeth)." Yn hytrach, dylai prentisiaid gyfeirio at gymal 3.5 "dysgwyr sy'n astudio ar raglen brentisiaeth".

Rhif y fersiwn: 1.0	Cymeradwywyd gan: Cynrychiolydd y Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Academiaidd
Yn weithredol o: 1 Awst 2021	Dyddiad adolygu: 1 Mawrth 2022

- Adran 4.1 "Myfyrwyr sy'n astudio cymhwyster Gwaith Cymdeithasol (nad ydynt yn rhan o raglen brentisiaeth)". Yn hytrach, dylai prentisiaid gyfeirio at adran 4.2 "Myfyrwyr sy'n astudio ar raglen brentisiaeth".
- Cymal 5.3 "Myfyrwyr sy'n astudio y tu hwnt i raglen brentisiaeth".
- Cymal 6.1b: colli swydd heb fod unrhyw fai arnoch chi ac yn methu â dod o hyd i swydd arall yn syth.
- Adran 7 "Rheolau Ffioedd sy'n benodol i'r Rhaglen Gwaith Cymdeithasol i Israddedigion".
- Adran 8 "Rheolau Ffioedd sy'n benodol i'r Rhaglen Gwaith Cymdeithasol i Raddedigion".
- Adran 10 "Rhoi'r gorau i'ch astudiaethau neu eu gohirio" – Dylai prentisiaid gyfeirio at Adran G5 "Changing your study plans for exceptional or personal reasons" o'r [Rheoliadau Academaidd \(Prentisiaid\) \(Saesneg yn unig\)](#).

Cytundebau Atodol a ddisodlir gan y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn disodli'r fersiwn flaenorol o [Gytundeb Atodol Amodau Cofrestru \(Gwaith Cymdeithasol\) 2021/22 \(Saesneg yn unig\)](#).

Crynodeb o'r prif newidiadau ers y fersiwn flaenorol

- a) Newidiwyd y derminoleg myfyrwyr prentisiaeth i 'Prentisiaid' a 'Dysgwyr' drwyddi draw.
- b) Ychwanegwyd Adrannau newydd sy'n dwyn y teitlau "Ymrwymiad i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn y Brifysgol Agored" a "Rhoi Gwybod mewn Lle Diogel".
- c) Mae cyfeiriadau at fanylion cyswllt prentisiaethau wedi'u diwygio drwyddi draw fel y bo'n briodol.
- d) Mae'r termau Tiwtor Rhaglen a Thiwtor Lleoliad wedi'u dileu a'u disodli â Tiwtor Ymarfer.

Rhif y fersiwn: 1.0	Cymeradwywyd gan: Cynrychiolydd y Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Academaidd
Yn weithredol o: 1 Awst 2021	Dyddiad adolygu: 1 Mawrth 2022

- e) Diwygiad i Gymal 2.1 i gael eglurder ynghylch cliriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.
- f) Ychwanegu Cymal 2.8 i bennu y bydd angen i chi fod wedi diwallu'r holl ofynion addysgol a phriodweddau personol/unrhyw ofynion mynediad eraill.
- g) Ychwanegu Cymal 2.9 i bennu bod angen Cliriad Iechyd Galwedigaethol boddhaol arnoch a dylech gyfeirio at y canllawiau presennol ar gyfer gofynion diweddar.
- h) Ffioedd yn Nhabl 1 a Thabl 2 wedi'u diweddarau ar gyfer 2022 - 2023.
- i) Diweddarwyd yr eirfa: Ychwanegwyd cyfeiriad at 'Diwtor Ymarfer'.
- j) Diwygiadau i'r adran 'Eglurhad pellach'.
- k) Diweddarwyd y manylion cyswllt i Brentisiaid yn yr adran Eglurhad pellach.

Dogfennaeth Gysylltiedig

Cyfeiriwch at y ddogfennaeth ganlynol ar y cyd â'r ddogfen hon:

- [Hysbysiad Preifatrwydd Prentisiaethau \(Saesneg yn unig\)](#)
- [Amodau Cofrestru \(Saesneg yn unig\)neu Amodau Cofrestru ar gyfer Prentisiaid \(Saesneg yn unig\) fel y bo'n berthnasol i'ch cymhwyster](#)
- [Hysbysiad Preifatrwydd Gwaith Cymdeithasol \(Saesneg yn unig\),](#)
- [Hysbysiad Preifatrwydd Myfyrwyr \(Saesneg yn unig\)](#)
- [Gweithdrefn Addasrwydd i Ymarfer \(Saesneg yn unig\)](#)
- [Polisi Bancio Aseidiadau \(Saesneg yn unig\)](#)
- [Rheolau Ffioedd \(Cyrsiau Gradd\) \(Saesneg yn unig\)](#)
- [Rheolau Ffioedd \(Cyrsiau Ôl-raddedig a Addysgir\) \(Saesneg yn unig\)](#)
- Rheoliadau sy'n benodol i gymwysterau ar gyfer eich cymhwyster Gwaith Cymdeithasol.

Rhif y fersiwn: 1.0	Cymeradwywyd gan: Cynrychiolydd y Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Academaidd
Yn weithredol o: 1 Awst 2021	Dyddiad adolygu: 1 Mawrth 2022

Gwerthoedd Siarter Myfyrwyr Y Brifysgol Agored

Mae'r ddogfen hon yn cyd-fynd yn benodol â'r Gwerthoedd canlynol a nodir yn [Siarter Myfyrwyr Y Brifysgol Agored](#):

4. Cyfathrebu â'n gilydd mewn ffyrdd clir, perthnasol, cywir ac amserol.
7. Ymddwyn yn foesol ac yn dryloyw, gan ddarparu a defnyddio ffyrdd teg ac agored o fynd i'r afael â'n pryderon a'n cwynion, gan ddysgu ohonynt.
9. Fel myfyrwyr, rydym yn rhannu'r cyfrifoldeb dros ddysgu ac yn ymrwymo i astudio ac ymchwilio gan ddefnyddio'r adnoddau a'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael, gan gynnal y safonau uchaf o ran uniondeb academaidd.
11. Cynnal a gwella safonau ac enw da ein Prifysgol, gan gydnabod cyfraniad pob aelod at ei llwyddiant.

Ymrwymiad i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn y Brifysgol Agored

Mae polisiâu'n cynnwys holl fyfyrwyr Y Brifysgol Agored, Dysgwyr, Ymholwyr a Chynfyfyrwyr, ni waeth beth yw eu hoedran, statws sifil, statws dibyniaeth neu ofalu, profiad o ofal, anabledd, statws teuluol, rhywedd, hunaniaeth rhywedd, ailbennu rhywedd, statws priodasol, priodas a phartneriaethau sifil, aelodaeth o'r gymuned Teithwyr, barn wleidyddol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, cefndir cymdeithasol-economaidd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol neu statws aelodaeth o undeb llafur.

Rhif y fersiwn: 1.0	Cymeradwywyd gan: Cynrychiolydd y Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Academaidd
Yn weithredol o: 1 Awst 2021	Dyddiad adolygu: 1 Mawrth 2022

Rhoi Gwybod mewn Lle Diogel

Mae'r Brifysgol Agored yn ymroi i greu amgylchedd amrywiol a chynhwysol lle mae pawb yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu trin ag urddas a pharch. Ni fydd gwahaniaethu anghyfreithlon o unrhyw fath yn cael ei oddef yn Y Brifysgol Agored. Mae Rhoi Gwybod mewn Lle Diogel ar gael trwy adnodd ar-lein y caiff staff, myfyrwyr, dysgwyr ac ymwelwyr eu hannog i roi gwybod am ddiwyddiadau o ymosod, bwlio, aflonyddu, troseddau casineb neu aflonyddu rhywiol drwyddo. Mae hefyd yn rhoi gwybodaeth am yr hyn y gallwch ei wneud os bydd y digwyddiadau hyn yn digwydd i chi neu i rywun rydych yn ei adnabod a ble y gallwch ddod o hyd i gymorth.

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r telerau ychwanegol y cytunwyd arnynt â'r Brifysgol Agored mewn perthynas ag astudio tuag at Gymhwyster Gwaith Cymdeithasol. Cytundeb Atodol ydyw fel y cyfeirir ato yn yr [Amodau Cofrestru](#) a'r [Amodau Cofrestru \(Prentisiaid\)](#), a dylid ei ddarllen ar y cyd â'r Amodau hynny a'r rheolau, rheoliadau a pholisïau a nodir ynddynt. Drwy gofrestru ar gyfer cymhwyster Gwaith Cymdeithasol, rydych yn cytuno ar y telerau hyn.

Mae'r Cytundeb Atodol hwn yn weithredol o'r dyddiad y gwnaethoch gofrestru ar gyfer eich cymhwyster Gwaith Cymdeithasol, a bydd yn parhau i fod yn gymwys tan eich bod wedi cwblhau eich cymhwyster, neu tan y bydd eich cofrestrriad wedi dod i ben neu wedi cael ei ganslo, pa un bynnag sy'n digwydd gyntaf.

I gael arweiniad penodol ar sut y gall y polisi hwn fod yn berthnasol i'ch amgylchiadau personol, cysylltwch â'ch [Tîm Cymorth Myfyrwyr](#) neu Reolwr Cyflwyno'r Rhaglen Brentisiaeth (APDM, neu aelod o staff cyfatebol) sydd wedi'i hyfforddi'n arbennig i roi cyngor ar weithredu'r polisi hwn.

Rhif y fersiwn: 1.0	Cymeradwywyd gan: Cynrychiolydd y Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Academaidd
Yn weithredol o: 1 Awst 2021	Dyddiad adolygu: 1 Mawrth 2022

Prif delerau'r Cytundeb Ychwanegol

1 Crynodeb o brif delerau'r Cytundeb Ychwanegol

- 1.1. Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb bras o delerau atodol eich cytundeb i astudio cymhwyster Gwaith Cymdeithasol gyda'r Brifysgol Agored. Rydych yn:
- a) cytuno i gydymffurfio â'r safonau proffesiynol a bennwyd gan yr Awdurdod Rheoleiddio a'u cyrraedd: Social Work England (SWE), Gwaith Cymdeithasol Cymru (GCC), Cyngor Gwasanaethau Cymdeithasol yr Alban (SSSC), neu Gyngor Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon (NISCC);
 - b) cytuno i sicrhau bod nawdd wedi'i drefnu gennych (neu eich bod wedi eich derbyn ar y llwybr annibynnol/ nas noddur yng Nghymru neu'r Alban). Heb hyn ni chewch gofrestru ar gyfer y modiwlau seiliedig ar ymarfer gorfodol sy'n rhan o'ch cymhwyster Gwaith Cymdeithasol (ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio cymhwyster Gwaith Cymdeithasol nad ydynt yn rhan o raglen brentisiaeth);
 - c) cytuno i gael eich cyflogi fel Prentis Gradd Gwaith Cymdeithasol sydd â Chytundeb Prentisiaeth addas ar waith gyda'ch cyflogwr (ar gyfer dysgwyr sy'n astudio cymhwyster Gwaith Cymdeithasol ar raglen brentisiaeth);
 - d) cytuno i gydymffurfio â gofynion cyfreithiol a gwasanaeth eich Cyflogwr (Prentisiaid), Noddwr a Darparwr Lleoliad, fel y'u nodir yn eu priod bolisiau a gweithdrefnau;
 - e) deall, er mwyn ennill eich cymhwyster Gwaith Cymdeithasol, fod yn rhaid i chi gyrraedd y safonau proffesiynol a'r safonau academaidd gofynnol, yn ogystal â bodloni'r gofynion seiliedig ar ymarfer;
 - f) cytuno i hysbysu eich Tiwtor Ymarfergyda'r Brifysgol Agored, Cyflogwr (Prentisiaid) a'ch Noddwr, cyn gynted â phosibl, am unrhyw bryderon sydd gennych ynglŷn â methu â bodloni gofynion o'r fath;

Rhif y fersiwn: 1.0	Cymeradwywyd gan: Cynrychiolydd y Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Academaidd
Yn weithredol o: 1 Awst 2021	Dyddiad adolygu: 1 Mawrth 2022

- g) deall y gall Y Brifysgol Agored atal neu derfynu eich cofrestrriad, neu wrthod dyfarnu'r cymhwyster Gwaith Cymdeithasol os na fodlonir y telerau a nodir yn y cytundeb atodol hwn; deall y gall Y Brifysgol Agored, Cyflogwr (Prentisiaid), eich Noddwr ac unrhyw Ddarparwr Lleoliad rannu gwybodaeth am eich iechyd, anabledd, perfformiad academiaidd, ymddygiad, addasrwydd i ymarfer a safonau proffesiynol yn unol ag Adran 9 "Rhannu gwybodaeth a Diogelu Data". Caiff gwybodaeth o'r fath ei chadw'n ddiogel, a dim ond yn unol â Hysbysiad Preifatrwydd Myfyrwyr, Hysbysiad Preifatrwydd Gwaith Cymdeithasol a Hysbysiad Preifatrwydd Prentisiaethau y Brifysgol Agored y caiff ei phrosesu.

2 Safonau Proffesiynol a Gweithdrefnau Addasrwydd i Ymarfer

- 2.1 Er mwyn astudio cymhwyster Gwaith Cymdeithasol gyda'r Brifysgol Agored, mae gofynion ychwanegol i ddatgelu cyfyngiadau ac amodau cyfreithiol. Bydd yn ofynnol i chi gael cliriad manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (yng Nghymru a Lloegr), gwiriad Disclosure Scotland (yn yr Alban) neu wiriad Access NI (yng Nogledd Iwerddon). Bydd Y Brifysgol Agored yn rhoi gwybod i chi am y wybodaeth y bydd yn ofynnol i chi ei datgelu os yn briodol, cyn cofrestru ar eich cymhwyster Gwaith Cymdeithasol. I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'ch [Tîm Cymorth Myfyrwyr](#) neu Reolwr Cyflwyno'r Rhaglen Brentisiaeth (APDM neu aelod o staff cyfatebol).
- 2.2 Drwy ymrwymo i'r Cytundeb Atodol hwn, rydych yn cydnabod yn benodol eich bod yn deall ac yn cytuno i ymrwymo i'r safonau proffesiynol a bennwyd gan yr Awdurdod Rheoleiddio sy'n gymwys i fyfyrwyr Gwaith Cymdeithasol. Mae hyn yn golygu'r canlynol:
- a) Os mynegir pryder nad ydych yn cyflawni neu'n cynnal y safonau hyn ar lefel sy'n briodol ar gyfer cam eich astudiaethau ar gyfer y Cymhwyster Gwaith Cymdeithasol, efallai y cewch eich cyfeirio o dan Weithdrefn [Addasrwydd i Ymarfer](#) Y Brifysgol Agored. Gall hyn arwain at y canlynol:
- gosod amodau arnoch i barhau i astudio ar gyfer cymhwyster Gwaith Cymdeithasol (ac felly eich cyflogaeth, os ydych yn Brentis Gradd Gwaith Cymdeithasol);

Rhif y fersiwn: 1.0	Cymeradwywyd gan: Cynrychiolydd y Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Academiaidd
Yn weithredol o: 1 Awst 2021	Dyddiad adolygu: 1 Mawrth 2022

- eich atal rhag astudio ar gyfer cymhwyster Gwaith Cymdeithasol;
- terfynu cofrestriad ar gyfer cymhwyster Gwaith Cymdeithasol;
- peidio â dyfarnu cymhwyster Gwaith Cymdeithasol.

b) Rydych yn cytuno i hysbysu eich Tiwtor Ymarfercyn gynted â phosibl am unrhyw fater a all beri pryder ynglŷn â'ch gallu i gyrraedd safonau proffesiynol yr Awdurdod Rheoleiddio. Os ydych yn Brentis sy'n dilyn y rhaglen Gwaith Cymdeithasol, dylech hysbysu eich APDM/ Tiwtor Ymarfer am unrhyw fater o'r fath.

2.3 Er mwyn bod yn gymwys i ennill cymhwyster Gwaith Cymdeithasol, rhaid eich bod, ym marn resymol Y Brifysgol Agored, yn bodloni'n foddhaol y gofynion academaidd a'r gofynion safonau proffesiynol, ynghyd â gofynion y Cynllun Asesu ar gyfer Prentisiaeth Gradd Gwaith Cymdeithasol (SWDA) (prentisiaid yn unig).

2.4 Er y gellid bod wedi dyfarnu credyd modiwl i chi sy'n bodloni gofynion academaidd ac ymarfer dysgu'r cymhwyster Gwaith Cymdeithasol, gall Y Brifysgol Agored benderfynu peidio â dyfarnu'r cymhwyster hwnnw ar sail argymhelliad panel Addasrwydd i Ymarfer os yw'n penderfynu eich bod wedi methu â chyrraedd y safonau proffesiynol gofynnol o ganlyniad i faterion a gododd cyn cyflwyno'r cymhwyster.

2.5 Os yw eich cymhwyster Gwaith Cymdeithasol wedi'i gyflwyno a daw unrhyw faterion a gododd cyn ei gyflwyno i'r amlwg a bod y panel Addasrwydd i Ymarfer o'r farn y dylent fod wedi cael eu datgan ac y byddai hynny wedi arwain at atal y Cymhwyster Gwaith Cymdeithasol, caiff y mater ei gyfeirio at Bwyllgor Disgyblu Canolog y Brifysgol sydd â'r pŵer i dynnu'r Cymhwyster Gwaith Cymdeithasol yn ôl.

2.6 Os na chaiff y cymhwyster Gwaith Cymdeithasol ei ddyfarnu o ganlyniad i gamau a gymerwyd gan banel Addasrwydd i Ymarfer neu'r Pwyllgor Disgyblu Canolog, gallech gael cynnig cymhwyster amgen gan Y Brifysgol Agored lle rydych yn bodloni'r gofynion credyd ar ei gyfer, ond ni fyddwch yn gallu cofrestru i ymarfer fel gweithiwr cymdeithasol.

Rhif y fersiwn: 1.0	Cymeradwywyd gan: Cynrychiolydd y Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Academaidd
Yn weithredol o: 1 Awst 2021	Dyddiad adolygu: 1 Mawrth 2022

- 2.7 Ni fydd cael cynnig lle ar y cymhwyster gan Y Brifysgol Agored na chwblhau'r cymhwyster yn llwyddiannus yn sicrhau y cewch eich cynnwys ar y gofrestr broffesiynol. Mae'r corff proffesiynol Gwaith Cymdeithasol perthnasol ar gyfer eich gwlad yn cadw'r hawl i benderfynu a gewch ymuno â'r gofrestr broffesiynol ar y pwynt cofrestru. Cyfeiriwch at ganllawiau eich corff proffesiynol am y wybodaeth fwyaf diweddar am ofynion cyfredol cofrestru.
- 2.8 Bydd angen i chi fod wedi diwallu'r holl ofynion addysgol a phriodweddau personol a nodwyd i gael mynediad i'r cymhwyster a ddewiswyd gennych. Rhaid cwblhau holl ofynion y rhaglen cyn i'r cymhwyster gael ei ddyfarnu.
- 2.9 Bydd angen i chi gael Cliriad Iechyd Galwedigaethol boddhaol a chydymffurfio ag unrhyw ofynion iechyd ar gyfer eich galwedigaeth. Os ydych yn ymgeisydd neu'n fyfyrwr cyfredol sy'n astudio ar raglen Gwaith Cymdeithasol Y Brifysgol Agored, mae'n ofynnol i chi wirio'r ddeddfwriaeth COVID-19 Brechlyn fel Amod Adleoli yn Lloegr (Gwaith Cymdeithasol) ar gyfer y gofynion diweddaraf i barhau â'ch astudiaethau ar y rhaglen, yn unol â Chanllawiau'r Llywodraeth. Mae'n bosibl y bydd hyn yn effeithio ar eich dilyniant yn eich astudiaethau Gwaith Cymdeithasol os na ddilynwch y gofynion hyn.

3 Cyfnodau Ymarfer Dysgu

- 3.1 Pan fyddwch yn cofrestru ar gyfer cymhwyster Gwaith Cymdeithasol gyda'r Brifysgol Agored, rydych yn cytuno i wneud y canlynol:
- Cydweithredu â'ch Noddwr/Cyflogwr (Prentisiaid) er mwyn hwyluso eich cyfranogiad mewn Cyfnodau Ymarfer Dysgu priodol i'ch galluogi i gyflawni deilliannau dysgu'r cymhwyster Gwaith Cymdeithasol.
 - Ymrwymo i Gytundeb Ymarfer Dysgu gyda'ch Aseswr Ymarfer/Addysgwr a Tiwtor Ymarfer ar gyfer pob lleoliad fel rhan o fodiwl lle mae angen i chi gyflawni Cyfnod Ymarfer Dysgu.

Rhif y fersiwn: 1.0	Cymeradwywyd gan: Cynrychiolydd y Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Academaidd
Yn weithredol o: 1 Awst 2021	Dyddiad adolygu: 1 Mawrth 2022

- c) Cydweithredu â'ch Cyflogwr (Prentisiaid), Noddwr neu Ddarparwr Lleoliad a bodloni unrhyw ofynion rhesymol i gynnal enw da'r Noddwr a/neu Ddarparwr Lleoliad a'r Brifysgol Agored a chydymffurfio â'u rhwymedigaethau cyfreithiol a safonau gwasanaeth mewn cysylltiad â'ch rhan yn y cyfleoedd ymarfer dysgu a ddarperir.
- d) Cydymffurfio â pholisïau ac arferion cyflogi'r Cyflogwr (Prentisiaid), Noddwr a/neu'r Darparwr Lleoliad a chymryd pob cam rhesymol i gynnal unrhyw gyfleoedd ymarfer dysgu a ddarperir er mwyn cwblhau'r cymhwyster Gwaith Cymdeithasol.
- e) Eich cyflogaeth barhaus fel gofyniad i barhau i astudio'r cymhwyster Gwaith Cymdeithasol drwy'r llwybr rhaglen brentisiaeth.

3.2 Bydd y Cytundeb Ymarfer Dysgu yn ei gwneud yn ofynnol i chi gydweithredu â'r Aseswr Ymarfer/Addysgwr Ymarfer. Byddant yn gwneud y canlynol:

- a) cynnal arsylwadau ac ymarfer wedi'i oruchwylio, gan gynnig adborth rheolaidd i chi drwy gydol y Cyfnod Ymarfer Dysgu;
- b) cyflawni unrhyw gyfrifoldebau asesu sy'n ofynnol gan y rhaglen cymhwyster Gwaith Cymdeithasol;
- c) cymryd rhan yn y gwaith o gynllunio, monitro ac adolygu cyfarfodydd gyda chi a'ch Tiwtor Ymarfer.

3.3 Os byddwch yn torri cymalau 3.1 neu 3.2 neu delerau eich Cytundeb Ymarfer Dysgu ac nad yw, ym marn eich Cyflogwr (Prentisiaid), Noddwr na Darparwr Lleoliad na'ch Tiwtor Ymarfer, yn rhesymol ymarferol i chi gwblhau Cyfnod Ymarfer Dysgu, nid yw'n ofynnol i'ch Noddwr na'r Brifysgol Agored roi cyfle pellach i chi fodloni'r gofynion ymarfer dysgu ar gyfer y modiwl hwnnw. O dan yr amgylchiadau hyn gall eich astudiaethau gael eu hatal yn unol â'r [Weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer](#).

3.4 Myfyrwyr sy'n astudio cymhwyster Gwaith Cymdeithasol (nad ydynt yn rhan o raglen brentisiaeth)

Rhif y fersiwn: 1.0	Cymeradwywyd gan: Cynrychiolydd y Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Academaidd
Yn weithredol o: 1 Awst 2021	Dyddiad adolygu: 1 Mawrth 2022

- 3.4.1 Os bydd anawsterau yn codi yn ystod Cyfnod Ymarfer Dysgu sy'n tarfu ar eich dysgu, bydd Y Brifysgol Agored yn mynd i'r afael â hyn yn unol â'r canllawiau yn y Canllaw Ymarfer Dysgu, a fydd ar gael ei chi ar ôl i chi gael eich cofrestru ar fodiwl, o dan yr adran "Adnoddau" drwy wefan eich modiwl. Os na allwch weld y ddogfen hon, cysylltwch â'ch [Tîm Cymorth Myfyrwyr](#)

3.5 Dysgwrsy'n dilyn rhaglen brentisiaeth

- 3.5.1 Fel Prentis, mae'n ofynnol i'ch cyflogwr roi 20%o oriau â thâl 'y tu allan i'r swydd' i chi astudio. Cytunwyd ar hyd eich prentisiaeth ar ddechrau'r rhaglen ac mae'n cynnwys y Cyfnodau Ymarfer Dysgu.

4 Terfynu Nawdd/Cyflogaeth

- 4.1 Myfyrwyr sy'n astudio cymhwyster Gwaith Cymdeithasol (nad ydynt yn rhan o raglen brentisiaeth)

- 4.1.1 Bydd cyfrifoldebau eich Noddwr, fel y'u nodir yn y Cytundeb hwn, yn dod i ben os byddwch yn gadael eich cyflogaeth neu'n rhoi'r gorau i wirfoddoli. Er mwyn parhau i fod wedi eich cofrestru ar gyfer y cymhwyster Gwaith Cymdeithasol, byddwch yn gyfrifol am ddod o hyd i Noddwr amgen addas er mwyn cwblhau unrhyw gyfleoedd ymarfer dysgu pellach sydd eu hangen a chwblhau'r cymhwyster Gwaith Cymdeithasol o fewn y terfyn amser penodedig.

- 4.1.2 Os caiff cytundeb cydweithredu'r Brifysgol Agored â'ch Noddwr ei derfynu, bydd Y Brifysgol Agored yn cymryd camau rhesymol i'ch galluogi i orffen y rhaglen cymhwyster Gwaith Cymdeithasol, gan gynnwys cwblhau pob modiwl angenrheidiol a chyflawni'r holl Gyfnodau Ymarfer Dysgu sydd eu hangen.

4.2 Dysgwrsy'n dilyn rhaglen brentisiaeth

- 4.2.1 Os caiff eich cyflogaeth ei therfynu am unrhyw reswm yn ystod eich prentisiaeth, cysylltwch â'ch Tiwtor Ymarfer neu Reolwr Cyflwyno'r Rhaglen Brentisiaeth (APDM neu unigolyn cyfatebol) cyn gynted â phosibl oherwydd bydd hyn yn effeithio ar eich gallu i barhau â'ch rhaglen ddysgu.

Rhif y fersiwn: 1.0	Cymeradwywyd gan: Cynrychiolydd y Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Academaidd
Yn weithredol o: 1 Awst 2021	Dyddiad adolygu: 1 Mawrth 2022

5 Terfynu cofrestrriad

- 5.1 Gall eich cofrestrriad ar gyfer y Cymhwyster Gwaith Cymdeithasol gael ei ganslo o dan yr amgylchiadau a nodir yn yr [Amodau Cofrestru](#) neu [Amodau Cofrestru \(Prentisiaid\)](#) fel sy'n briodol i'ch cymhwyster. Hefyd, gall Y Brifysgol Agored ganslo eich cofrestrriad os na fyddwch yn gwneud y canlynol:
- a) Cyflawni ymarfer dysgu gyda'r Noddwr neu Ddarparwr Lleoliad cytûn.
 - b) Cynnal safonau'r Awdurdod Rheoleiddio o ran eich iechyd, cymhwysedd a safonau ymddygiad.
- 5.2 Os byddwch yn methu modiwl (gan gynnwys methu unrhyw arholiad ailsefyll neu ailgyflwyniad), caiff eich Cyflogwr (Prentisiaid) neu Noddwr benderfynu a yw'n parhau i'ch cefnogi ar y rhaglen Gwaith Cymdeithasol. Os ydych yn Brentis, dylech gysylltu â'ch rheolwr cyflwyno'r rhaglen brentisiaeth neu unigolyn cyfatebol am ragor o wybodaeth i weld a fydd modd iddo barhau i'ch cefnogi.
- 5.3 Myfyrwyr sy'n astudio y tu hwnt i raglen brentisiaeth
- 5.3.1 Er bod angen i chi ddod o hyd i Noddwr arall er mwyn parhau â'r modiwlau ymarfer dysgu, gallwch astudio modiwl academaidd ar y cam rydych yn ei astudio ar y pryd heb Noddwr, ar yr amod eich bod yn gallu cyflawni deilliannau dysgu'r modiwl hwnnw.

Rhif y fersiwn: 1.0	Cymeradwywyd gan: Cynrychiolydd y Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Academaidd
Yn weithredol o: 1 Awst 2021	Dyddiad adolygu: 1 Mawrth 2022

6 Eich Astudiaethau

- 6.1 Rhaid i chi gwblhau eich Cymhwyster Gwaith Cymdeithasol yn yr amser a nodir yn y Rheoliadau Cymhwyster sy'n benodol i'ch cymhwyster, neu fel y nodir yn eich Datganiad Ymrwymo (Prentisiaid), oni chewch estyniad yn ôl disgrisiwn y Bwrdd Astudiaethau Iechyd, Llesiant a Gofal Cymdeithasol. Mae hwn ar gael drwy eich [StudentHome](#). Os ydych yn astudio prentisiaeth, rhaid i unrhyw gais am estyniad gael ei wneud gyda chytundeb eich Cyflogwr a'r Brifysgol Agored a chan gydymffurfio â'r rheolau a nodir gan eich Darparwr Cyllido a'r rheoleiddiwr. Gellir ystyried ceisiadau i ohirio os nad ydych wedi gallu astudio oherwydd rhesymau y tu hwnt i'ch rheolaeth (gweler Atodiad A: Amgylchiadau lle y gellir ystyried rhoi estyniad i Fyfyrrwyr gwblhau eu cymhwyster). Mae amgylchiadau eraill lle y gellir rhoi estyniad yn cynnwys y canlynol:
- a) os ydych wedi cael eich gwahardd dros dro o dan y [Gweithdrefnau Addasrwydd i Ymarfer](#) a'ch bod wedi cael eich ailgyflogi ar ôl hynny;
 - b) os byddwch yn colli eich swydd er nad chi oedd ar fai, ac nad ydych yn gallu dod o hyd i swydd arall ar unwaith (myfyrrwyr sy'n astudio am gymhwyster Gwaith Cymdeithasol y tu hwnt i brentisiaeth yn unig).
- 6.2 Os na fyddwch yn gallu cwblhau Cyfnod Ymarfer Dysgu am ba reswm bynnag, efallai y gallwch fancio cyfnodau asesu ymarfer parhaus rydych wedi eu cwblhau eisoes. Wrth ddychwelyd i astudio, efallai y bydd yn ofynnol i chi gyflawni cyfnodau ymarfer dysgu parhaus pellach er mwyn cwblhau'r oriau astudio gofynnol. Bydd penderfyniad ynghylch eich cymhwysedd i fancio eich asesiad ymarfer yn seiliedig ar yr egwyddorion arweiniol a nodir yn y Wybodaeth am Darfu ar Leoliad, sydd ar gael yn adran 'Rheoli Ymarfer' gwefan y modiwl perthnasol.
- 6.3 Efallai y gallwch fancio asesiadau eraill a gwblhawyd, megis aseiniadau wedi'u marcio gan diwtor (TMAau) os bydd angen i chi ohirio eich astudiaethau am gyfnod. Ceir rhagor o wybodaeth am ohirio a bancio asesiad yn y [Rheolau Bancio Asesiadau \(Saesneg yn unig\)](#).

Rhif y fersiwn: 1.0	Cymeradwywyd gan: Cynrychiolydd y Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Academaidd
Yn weithredol o: 1 Awst 2021	Dyddiad adolygu: 1 Mawrth 2022

- 6.4 Os cewch gofrestru ar gyfer modiwl sy'n perthyn i gam nesaf y cymhwyster Gwaith Cymdeithasol cyn i chi gwblhau'r modiwl olaf ar y cam presennol, rhaid i chi gwblhau modiwl y cam presennol o fewn 12 wythnos i ddechrau'r modiwl ar y cam nesaf. Os na fyddwch yn pasio neu'n cwblhau'r modiwl hwn, efallai y cewch eich dadgofrestru o'r modiwl ar gam diweddarach. Os bydd hyn yn digwydd, ni allwch ailgofrestru nes i chi gwblhau'r modiwl sy'n weddill. Dim ond Bwrdd Astudiaethau Iechyd, Llesiant a Gofal Cymdeithasol y Gyfadran a all roi caniatâd eithriadol i wyro oddi wrth y drefn astudio benodedig.
-

7 Rheolau Ffioedd sy'n benodol i'r Rhaglen Gwaith Cymdeithasol i Israddedigion

- 7.1 Nodir Rheolau Ffioedd ar gyfer Astudiaethau Israddedig yn [Rheolau Ffioedd \(Israddedigion\)](#). Nodir cymhwysedd am ffi modiwl is yn Adran J4 o'r [Rheolau Ffioedd \(Israddedigion\)](#).
- 7.2 Os byddwch wedi methu'r elfennau academaidd, ond eich bod wedi cwblhau elfennau seiliedig ar waith unrhyw fodiwl a gyflwynir yn Nhabl 1, byddwch yn talu Ffi Ailadrodd wedi'i haddasu fel y nodir yn Nhabl 1. O dan unrhyw amgylchiadau eraill bydd y rheolau safonol ynghylch ffioedd ailadrodd modiwl yn gymwys, fel y'u nodir yn y [Rheolau Ffioedd \(Israddedigion\)](#).

Rhif y fersiwn: 1.0	Cymeradwywyd gan: Cynrychiolydd y Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Academaidd
Yn weithredol o: 1 Awst 2021	Dyddiad adolygu: 1 Mawrth 2022

Tabl 1: Ffioedd Ailadrodd Modiwl wedi'u Haddasu ar gyfer modiwlau rhaglen Gwaith Cymdeithasol Israddedig penodol

Modiwl	Ffi Modiwl 22/23	Ffi Ailadrodd wedi'i Haddasu
KZW123 (Cymru – myfyrwyr sy'n parhau)	£1,706	£805.50
KZW123 (Cymru - newydd)	£1,923	£981
K216 (Lloegr)	£3,650	£2,421
K216 (Yr Alban/Gogledd Iwerddon)	£2,625	£805.50
KZW216 (Cymru)	£2,625	£805.50
K315 (Lloegr)	£3,650	£2,421
K315 (Yr Alban/Gogledd Iwerddon)	£2,625	£805.50
KZW315 (Cymru)	£2,625	£805.50

Gall ffioedd fod yn wahanol rhwng gwledydd datganoledig y DU am fod y Brifysgol yn cael lefelau gwahanol o gyllid gan ddarparwyr cyllid canolog

8 Rheolau Ffioedd sy'n benodol i'r Rhaglen Gwaith Cymdeithasol i Raddedigion

- 8.1 Nodir Rheolau Ffioedd ar gyfer Astudiaethau Ôl-raddedig yn [Rheolau Ffioedd \(Ôl-raddedig\)](#).
- 8.2 Os byddwch wedi methu'r elfennau academaidd, ond eich bod wedi cwblhau elfennau seiliedig ar waith unrhyw fodiwl a gyflwynir yn Nhabl 2, byddwch yn talu Ffi Ailadrodd wedi'i haddasu fel y nodir yn Nhabl 2. O dan unrhyw amgylchiadau eraill bydd y [Rheolau Ffioedd \(Ôl-raddedig\)](#) safonol yn gymwys.

Rhif y fersiwn: 1.0	Cymeradwywyd gan: Cynrychiolydd y Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Academaidd
Yn weithredol o: 1 Awst 2021	Dyddiad adolygu: 1 Mawrth 2022

Tabl 2: Ffioedd Ailadrodd Modiwl wedi'u Haddasu ar gyfer modiwlau rhaglen Gwaith Cymdeithasol Ôl-raddedig penodol

Modiwl	Ffi Modiwl 22/23	Ffi Ailadrodd wedi'i Haddasu
K832	£3,940	£2,247
K833	£3,940	£2,247

Gall ffioedd fod yn wahanol rhwng gwledydd datganoledig y DU am fod y Brifysgol yn cael lefelau gwahanol o gyllid gan ddarparwyr cyllid canolog

9 Rhannu gwybodaeth a Diogelu Data

9.1 Gweler [Hysbysiad Preifatrwydd Myfyrwyr](#), [Hysbysiad Preifatrwydd Gwaith Cymdeithasol](#), a [Hysbysiad Preifatrwydd Prentisiaethau](#) Y Brifysgol Agored (os ydych yn astudio'r cymhwyster Gwaith Cymdeithasol drwy brentisiaeth) am wybodaeth lawn am y ffordd y caiff data eu casglu a'u defnyddio gan Y Brifysgol Agored. Mae rhai pwyntiau ychwanegol sy'n ymwneud â'r Cytundeb Atodol hwn. Drwy ymrwmo i'r Cytundeb Atodol hwn, nodwch y canlynol:

- a) Gall Y Brifysgol Agored rannu (neu bydd yn rhannu ar gyfer Prentisiaid) gwybodaeth am eich perfformiad academaidd a'r safonau proffesiynol sy'n ymwneud â'ch astudiaeth ar gyfer cymhwyster Gwaith Cymdeithasol â'ch Cyflogwr (Prentisiaid), Noddwr ac unrhyw Ddarparwr Lleoliad. Yn benodol, gall gwybodaeth am faterion yn ymwneud â'ch ymddygiad gael ei rhannu lle gallant effeithio ar eich addasrwydd proffesiynol neu'ch addasrwydd i ymarfer a'ch cyfranogiad parhaus mewn unrhyw amgylchedd ymarfer dysgu.
- b) Gall gwybodaeth am eich iechyd ac unrhyw anabledd sydd wedi'i ddatgan gael ei rhannu â Darparwyr Lleoliad yn unol â rhwymedigaethau cyfreithiol i ddarparu addasiadau rhesymol, er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaethau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yng Nghymru, Lloegr a'r Alban; Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2015 ar gyfer Gogledd Iwerddon; neu unrhyw ddyletswydd neu rwymedigaeth statudol arall. Hefyd, gall data gael eu rhannu fel nad ydych chi nac aelodau o'r cyhoedd mewn perygl wrth i chi gyflawni lleoliad.

Rhif y fersiwn: 1.0	Cymeradwywyd gan: Cynrychiolydd y Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Academaidd
Yn weithredol o: 1 Awst 2021	Dyddiad adolygu: 1 Mawrth 2022

- c) Bydd Y Brifysgol Agored yn cadw unrhyw wybodaeth a rennir yn ddiogel ac yn prosesu data yn unol â [Hysbysiad Preifatrwydd Myfyrwyr](#), [Hysbysiad Preifatrwydd Gwaith Cymdeithasol](#) a [Hysbysiad Preifatrwydd Prentisiaethau](#). Bydd eich Cyflogwr (Prentisiaid), Noddwr ac unrhyw Ddarparwr Lleoliad yn storio ac yn prosesu gwybodaeth yn unol â'u Hysbysiadau Preifatrwydd.
- d) Gall Y Brifysgol Agored ystyried unrhyw bryder a godir drwy ei [Gweithdrefn Addasrwydd i Ymarfer](#). Gall hyn arwain at osod amodau ar eich cofrestrriad parhaus ar y rhaglen, eich gwahardd dros dro neu eich dadgofrestru o'r rhaglen neu eich diarddel o'r Brifysgol Agored.
- e) Gall eich Noddwr, Cyflogwr neu unrhyw Ddarparwr Lleoliad hysbysu'r Brifysgol Agored am unrhyw fater sy'n peri pryderon am eich gallu i gyrraedd safonau proffesiynol yr Awdurdod Rheoleiddio.
- f) Gall Y Brifysgol Agored, eich Cyflogwr, eich Noddwr ac unrhyw Ddarparwr Lleoliad rannu gwybodaeth a thystiolaeth am faterion yn ymwneud â'ch ymddygiad a allai effeithio ar eich addasrwydd proffesiynol, addasrwydd i ymarfer, cyflogaeth barhaus neu eich cyfranogiad mewn cyfnod ymarfer dysgu. Mae gan eich Cyflogwr yr hawl i ddelio â materion sy'n ymwneud â chyflogaeth o dan ei weithdrefnau ei hun, yn annibynnol ar weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer Y Brifysgol Agored. Fodd bynnag, gall hon hefyd gael ei defnyddio mewn perthynas â'r materion hynny.
- g) Hefyd, efallai y bydd gan Y Brifysgol Agored rwymedigaeth gyfreithiol i ddarparu gwybodaeth benodol i'r Awdurdod Rheoleiddio, a'r corff cyllido a'r rheoleiddiwr (Prentisiaid).
- h) Bydd Y Brifysgol Agored, lle y bo'n ofynnol, yn hysbysu'r Awdurdod Rheoleiddio am unrhyw fater sy'n ymwneud ag addasrwydd neu addasrwydd i ymarfer yr ymchwiliwr iddo yn ogystal â chanlyniad unrhyw ymchwiliad. Fodd bynnag, ni fydd Y Brifysgol Agored yn rhannu gwybodaeth am ymchwiliad i addasrwydd i ymarfer â Noddwr, Cyflogwr na Darparwr Lleoliad os ystyrir nad yw'r mater yr ymchwiliwr iddo yn peri risg ddybryd o dan yr amgylchiadau, na risg i ddefnyddwyr na chleifion.

Rhif y fersiwn: 1.0	Cymeradwywyd gan: Cynrychiolydd y Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Academaidd
Yn weithredol o: 1 Awst 2021	Dyddiad adolygu: 1 Mawrth 2022

- 9.2 Pan gwblheir eich cymhwyster Gwaith Cymdeithasol, bydd Y Brifysgol Agored, os oes angen, yn darparu unrhyw adroddiad neu eirida sydd ei angen ar yr Awdurdod Rheoleiddio fel amod dechrau gwneud Gwaith Cymdeithasol.
- 9.3 Lle na chaiff cymhwyster Gwaith Cymdeithasol ei ddyfarnu pan gwblheir y gofynion academaidd, bydd Y Brifysgol Agored yn darparu unrhyw adroddiad neu eirida sydd ei angen ar yr Awdurdod Rheoleiddio o ran y mater hwnnw. Bydd Y Brifysgol Agored yn darparu'r wybodaeth berthnasol fel y'i nodir gan yr Awdurdod Rheoleiddio. Gall fod hyn i'w drosglwyddo'n uniongyrchol i gyflenwr trydydd parti a ddefnyddir gan yr Awdurdod Rheoleiddio.
-

10 Rhoi'r gorau i'ch astudiaethau neu eu gohirio

- 10.1 Os byddwch yn bwriadu gohirio neu roi'r gorau i fodiwl cyn ei gwblhau, dylech drafod hyn â'ch Noddwr cyn gwneud hynny, oherwydd gall fod yn atebol am unrhyw ffioedd ychwanegol pan fyddwch yn ailddechrau astudio'r modiwl ac am fodiwlau ymarfer, a bydd hefyd angen iddo ddarparu cyfle ymarfer dysgu newydd.
- 10.2 Bydd Y Brifysgol Agored yn gweinyddu unrhyw Gredyd neu Ad-daliadau o ran Ffioedd sy'n ddyledus yn unol â'r [Rheolau Ffioedd](#).

Rhif y fersiwn: 1.0	Cymeradwywyd gan: Cynrychiolydd y Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Academaidd
Yn weithredol o: 1 Awst 2021	Dyddiad adolygu: 1 Mawrth 2022

Rhestr termau

Aseswr Ymarfer (Cymru) neu Addysgwr Ymarfer (Lloegr a'r Alban)

Yr unigolyn neu'r unigolion sydd â'r cymwysterau priodol a benodwyd gan y Noddwr neu'r Darparwr Lleoliad ac yr hysbyswyd Y Brifysgol Agored amdano neu amdanynt, i oruchwylio ymarfer dysgu ac asesu deilliannau dysgu perthnasol.

Awdurdod Rheoleiddio

Social Work England (SWE), Gwaith Cymdeithasol Cymru (GCC), Cyngor Gwasanaethau Cymdeithasol yr Alban (SSSC), neu Gyngor Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon (NISCC).

Cyflogwr

Y sefydliad y mae gennych gontract cyflogaeth ag ef.

Cyfnod Ymarfer Dysgu

Cyfnod neu gyfnodau ymarfer dysgu lle cewch eich adnabod yn ffurfiol fel myfyriwr Gwaith Cymdeithasol.

Cymhwyster Gwaith Cymdeithasol

BA (Anrh) Gwaith Cymdeithasol (Lloegr), BA (Anrh) Gwaith Cymdeithasol (Lloegr) (Prentisiaeth), BA (Anrh) Gwaith Cymdeithasol (yr Alban), BA (Anrh) Gwaith Cymdeithasol (Cymru), neu'r Diploma Ôl-raddedig mewn Gwaith Cymdeithasol.

Cytundeb Ymarfer Dysgu

Y cytundeb sy'n darparu manylion Cyfnod Ymarfer Dysgu a'i drefniadau, a phriod gyfrifoldebau'r myfyriwr a'r bobl sy'n cefnogi ei ymarfer dysgu.

Darparwr Lleoliad

Y sefydliad sy'n darparu mynediad i amgylchedd ymarfer dysgu at ddibenion addysg gwaith cymdeithasol.

Rhif y fersiwn: 1.0	Cymeradwywyd gan: Cynrychiolydd y Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Academaidd
Yn weithredol o: 1 Awst 2021	Dyddiad adolygu: 1 Mawrth 2022

Prentis/Dysgwr

Dysgwr 16 oed neu drosodd, sydd mewn cyflogaeth â thâl drwy gydol ei brentisiaeth ac sydd â Chytundeb Prentisiaeth gyda'i gyflogwr. Bydd y Prentis yn cyfuno ei waith ag astudio am gymhwyster seiliedig ar waith, academiaidd neu gyfunol. Mae myfyriwr sy'n brentis yn Brentis yn Lloegr sydd wedi'i gofrestru ar gyfer cymhwyster israddedig.

Noddwr

Yr endid sy'n eich cefnogi i ddilyn y rhaglen ar gyfer y Cymhwyster Gwaith Cymdeithasol ac sy'n trefnu eich ymarfer dysgu ac yn eich goruchwyllo. Defnyddir y term hwn p'un a yw'r sefydliad hefyd yn gwneud unrhyw gyfraniad ariannol tuag at eich costau astudio ai peidio. Noder, yn achos myfyrwyr sy'n dilyn llwybr heb ei noddi/ annibynnol/ interniaeth annibynnol, caiff rhai o gyfrifoldebau'r noddwr eu cyflawni gan Y Brifysgol Agored a chaiff eraill eu cyflawni gan y Darparwr Lleoliad.

Rheolwr Cyflwyno'r Rhaglen Brentisiaeth (APDM)

Yr unigolyn cyswllt sy'n cynorthwyo Prentisiaid a Chyflogwyr drwy gydol eu Rhaglen Brentisiaeth. Mae'n cynnig cymorth a chynghor ar recriwtio, cofrestru a chymhwysedd; ac mae'n gyswllt rhwng y Cyflogwr a'r Brifysgol Agored. Mae'n darparu cymorth i reolwyr llinell/mentoriaid yn y gweithle a Phrentisiaid. Mae APDMau hefyd yn adolygu, yn olrhain ac yn ymateb i gynnydd Prentisiaid drwy weithio gyda'r Cyflogwr, y Prentis a'r Brifysgol Agored er mwyn sicrhau y cwblheir y rhaglen yn llwyddiannus. Maent yn casglu ac yn gweithredu ar adborth gan y Cyflogwr a'r Prentis er mwyn gwella'r broses hon yn barhaus.

Tiwtor Ymarfer

Mae hyn yn cyfeirio at berson wedi'i benodi gan Y Brifysgol Agored sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am reoli perfformiad Myfyrwyr/Dysgwyr ar draws y modiwlau ymarfer Gwaith Cymdeithasol a astudir fel rhan o gymhwyster israddedig neu ôl-raddedig ac sy'n hwyluso cyfarfodydd ar gyfer yr agweddau ymarfer dysgu ar fodiwlau.

Rhif y fersiwn: 1.0	Cymeradwywyd gan: Cynrychiolydd y Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Academiaidd
Yn weithredol o: 1 Awst 2021	Dyddiad adolygu: 1 Mawrth 2022

Eglurhad pellach o'r Cytundeb Atodol hwn

Anfonwch unrhyw wybodaeth neu ohebiaeth arall at Y Brifysgol Agored yn electronig er mwyn i ni allu ymateb i chi cyn gynted â phosibl. Gallwch hefyd gysylltu â ni dros y ffôn neu drwy'r post. Er mwyn cadarnhau'r cyfeiriad post diweddaraf a manylion cyswllt eraill, neu os hoffech ddysgu mwy am ein hamseroedd ymateb diweddaraf ar gyfer derbyn ac anfon gohebiaeth at Y Brifysgol Agored drwy'r post, gweler Swyddfeydd Y Brifysgol Agored.

I gael rhagor o wybodaeth am gofrestru a ffioedd, neu i newid neu ganslo eich astudiaethau, cysylltwch â:

Tîm Cymorth Myfyrwyr

The Open University
PO Box 197
Milton Keynes
MK7 6BJ

www.open.ac.uk/contact

Ffôn +44 (0)300 303 5303

Prentisiaethau'r Brifysgol Agored

The Open University
PO Box 197
Milton Keynes
MK7 6BJ

www.open.ac.uk/contact

E-bost apprenticeships@open.ac.uk

Ffôn +44 (0)300 303 4121

Ar gyfer Prentisiaid sy'n astudio Gwaith Cymdeithasol

E-bost hsc-support@open.ac.uk

Ffôn 01908 541070

Rhif y fersiwn: 1.0	Cymeradwywyd gan: Cynrychiolydd y Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Academaidd
Yn weithredol o: 1 Awst 2021	Dyddiad adolygu: 1 Mawrth 2022

Y Brifysgol Agored yng Nghymru

Os byddwch yn byw yng Nghymru, gallwch siarad â chynghorydd cymorth myfyrwyr yn Gymraeg neu yn Saesneg.

18 Heol y Tollty
Caerdydd
CF10 1AP

Ffôn +44 (0)29 2047 1170

E-bost wales-support@open.ac.uk

I siaradwyr Cymraeg

Os ydych yn siarad Cymraeg a byddai'n well gennych drafod eich anghenion drwy gyfrwng y Gymraeg, cysylltwch â'r Brifysgol Agored yng Nghymru yng Nghaerdydd os gwelwch yn dda

Ffôn +44 (0)29 2047 1170 neu e-bost wales-support@open.ac.uk

Y Brifysgol Agored yn yr Alban

10 Drumsheugh Gardens
Edinburgh
EH3 7QJ

Ffôn +44 (0)131 226 3851

E-bost scotland@open.ac.uk

Y Brifysgol Agored yn Iwerddon (Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon)

110 Victoria Street
Belfast
Northern Ireland
BT1 3GN

Ffôn +44 (0)28 9032 3718

E-bost northernireland@open.ac.uk neu ireland@open.ac.uk

Rhif y fersiwn: 1.0	Cymeradwywyd gan: Cynrychiolydd y Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Academaidd
Yn weithredol o: 1 Awst 2021	Dyddiad adolygu: 1 Mawrth 2022

I Fyfirwyr newydd o'r tu allan i'r DU (ac eithrio Gweriniaeth Iwerddon)

Ffôn +44 300 303 0266

www.openuniversity.edu

Neu gallwch anfon e-bost atom drwy ein gwefan www.open.ac.uk/contact.

Os bydd gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'r ddogfen bolisi hon a sut y gellir ei gwella, cyflwynwch y rhain i SPR-Policy-Team@open.ac.uk.

Fformat amgen

Os bydd angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat amgen, cysylltwch â'r Tîm Cymorth Myfirwyr drwy <http://www.open.ac.uk/contact/> (rhif ffôn +44 (0)300 303 5303), neu eich Tîm Cymorth Myfirwyr dynodedig drwy [StudentHome](#) os ydych yn fyfyrwr gyda'r Brifysgol Agored ar hyn o bryd.

Rhif y fersiwn: 1.0	Cymeradwywyd gan: Cynrychiolydd y Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Academaidd
Yn weithredol o: 1 Awst 2021	Dyddiad adolygu: 1 Mawrth 2022

Atodiad A

Tabl 3: Amgylchiadau lle y gellir ystyried rhoi estyniad i Fyfyryr/ Dysgwyr gwblhau eu cymhwyster.

Maen prawf	Amodau a nodiadau	Enghreifftiau o'r mathau o dystiolaeth ategol sydd eu hangen
1. Marwolaeth aelod agos o'r teulu, partner neu ddibynnydd.	Diffinnir aelod agos o'r teulu fel rhywun roeddech yn dibynnu arno (yn emosiynol neu'n ariannol) neu a oedd yn dibynnu arnoch chi.	Copi caled neu hysbysiad e-bost ac yna dystiolaeth ddogfennol. Copi ardystiedig o dystysgrif marwolaeth (gellir gwneud eithriad os bu'r farwolaeth o fewn chwe wythnos cyn gwneud cais).
2. Analluogrwydd annisgwyl estynedig ar eich rhan chi neu ar ran aelod agos o'r teulu oherwydd salwch difrifol, damwain neu gyflwr meddygol	Os oeddech yn ymwybodol o'r problemau meddygol cyn dyddiad dechrau'r modiwl, mae'n rhaid bod y cyflwr wedi gwaethygu neu ddirywio ers hynny, h.y. ni ellid bod wedi rhagweld ar ddechrau'r modiwl y byddai'r salwch neu'r cyflwr wedi cael effaith andwyol ar eich astudiaethau.	Copi caled neu hysbysiad e-bost ac yna dystiolaeth ddogfennol. Tystysgrif, llythyr neu ddatganiad meddygol gan feddyg teulu neu feddyg ymgynghorol yn cadarnhau'r sefyllfa. (Mae'n rhaid i gyfnod y salwch gael effaith ar bryd y tynnir yn ôl).

Rhif y fersiwn: 1.0	Cymeradwywyd gan: Cynrychiolydd y Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Academaidd
Yn weithredol o: 1 Awst 2021	Dyddiad adolygu: 1 Mawrth 2022

<p>3. Anabledd</p>	<p>Nid yw'r addasiadau rhesymol a wnaed gan y Brifysgol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaethau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yng Nghymru, Lloegr a'r Alban; Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2015 ar gyfer Gogledd Iwerddon; neu unrhyw ddyletswydd neu rwymedigaeth statudol arall, wedi eich galluogi i astudio'n effeithiol; neu Mae effaith anabledd ar eich astudiaethau wedi bod yn fwy difrifol na'r disgwyl; neu</p> <p>Mae eich anabledd(au) wedi cael effaith gynyddol ar eich astudiaethau ers dyddiad dechrau'r modiwl.</p>	<p>Tystysgrif, llythyr neu ddatganiad meddygol gan feddyg teulu, meddyg ymgynghorol, cynorthwydd anfeddygol neu berson neu sefydliad cymorth yn cadarnhau'r sefyllfa.</p> <p>Tystiolaeth ategol o gofnodion y Brifysgol e.e. tiwtor neu'r Tîm Cymorth Myfyrwyr</p>
<p>4. Analluogrwydd annisgwyl estynedig ar eich rhan chi oherwydd beichiogrwydd, mamolaeth/tadolaeth, neu fenthyg croth.</p>	<p>Os oeddech yn ymwybodol o'r beichiogrwydd cyn dyddiad dechrau'r modiwl, mae'n rhaid i effaith y beichiogrwydd, mamolaeth/tadolaeth neu fenthyg croth ar eich astudiaethau fod yn fwy na'r hyn y gellid ei ragweld yn rhesymol.</p>	<p>Copi caled neu hysbysiad e-bost ac yna dystiolaeth ddogfennol.</p> <p>Tystysgrif, llythyr neu ddatganiad meddygol gan weithiwr iechedd proffesiynol, e.e. meddyg teulu, meddyg ymgynghorol neu fydwraig yn cadarnhau'r sefyllfa.</p>
<p>5. Analluogrwydd annisgwyl estynedig ar eich rhan chi oherwydd mabwysiadu.</p>	<p>Os oeddech yn ymwybodol o'r mabwysiad cyn dyddiad dechrau'r modiwl, mae'n rhaid i effaith y broses fabwysiadu neu'r cyfrifoldebau gofalu ar eich astudiaethau fod yn fwy na'r hyn y gellid ei rhagweld yn rhesymol.</p>	<p>Tystiolaeth ategol e.e. adroddiad gan y gwasanaethau cymdeithasol neu'r asiantaeth mabwysiadu, neu dystysgrif, llythyr neu ddatganiad meddygol gan feddyg teulu neu feddyg ymgynghorol yn cadarnhau'r sefyllfa.</p>

Rhif y fersiwn: 1.0	Cymeradwywyd gan: Cynrychiolydd y Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Academaidd
Yn weithredol o: 1 Awst 2021	Dyddiad adolygu: 1 Mawrth 2022

<p>6. Analluogrwydd annisgwyl estynedig ar eich rhan chi oherwydd ailbennu rhywedd</p>	<p>Os oeddech wedi bod drwy'r broses o ailbennu rhywedd cyn dyddiad dechrau'r modiwl neu os oeddech yn ymwybodol erbyn hynny o'r trefniadau i wneud hynny ar ôl y dyddiad hwnnw, mae'n rhaid bod yr effaith ar eich astudiaethau yn fwy na'r hyn y gellid bod wedi'i ddisgwyl yn rhesymol.</p>	<p>Copi caled neu hysbysiad e-bost ac yna dystiolaeth ddogfennol.</p> <p>Tystysgrif, llythyr neu ddatganiad meddygol gan feddyg teulu neu feddyg ymgynghorol yn cadarnhau'r sefyllfa.</p>
<p>7. Newid annisgwyl mewn amgylchiadau cyflogaeth sy'n golygu nad yw'n rhesymol bosibl i chi barhau i astudio oherwydd natur eithafol y gwaith, cyfathrebu gwael neu ddiffyg cyfleusterau astudio.</p>	<p>Oni fydd aelod o luoedd arfog Prydan yn cael ei leoli rhywle, ni chaiff amgylchiadau a all godi fel rhan o fywyd gwaith arferol megis newid swydd, symud, llwyth gwaith cynyddol neu ofynion teithio rhesymol eu hystyried.</p>	<p>Hysbysiad ar ffurf copi caled neu e-bost, a ddilynir gan dystiolaeth ddogfennol, e.e. llythyr neu e-bost gan eich cyflogwr neu bennaeth milwrol.</p>
<p>8. Camweinyddu ar ran y Brifysgol.</p>	<p>Camau gweithredu neu ddiffyg camau gweithredu y gellid eu hystyried yn gamweinyddu ar ran y Brifysgol ac sydd wedi effeithio ar eich cynnydd academaidd. Nid yw hyn yn cynnwys amgylchiadau sydd y tu hwnt i reolaeth y Brifysgol.</p>	<p>Unrhyw dystiolaeth berthnasol i gefnogi eich cais e.e. cofnod o gyswllt myfyrwr.</p>
<p>9. Amgylchiadau eithriadol eraill difrifol y tu hwnt i'ch rheolaeth.</p>	<p>Amgylchiadau y tu hwnt i'ch rheolaeth a wnaeth leihau'n sylweddol yr amser a oedd ar gael i chi astudio dros gyfnod parhaus.</p>	<p>Tystiolaeth ategol e.e. adroddiad gan y gwasanaethau brys, y gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu neu gwnselydd, neu ddogfennaeth yswiriant cartref.</p>

Rhif y fersiwn: 1.0	Cymeradwywyd gan: Cynrychiolydd y Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Academaidd
Yn weithredol o: 1 Awst 2021	Dyddiad adolygu: 1 Mawrth 2022

<p>10. Newid annisgwyl mewn cyfrifoldebau gofalu</p>	<p>Os oedd eich cyfrifoldebau gofalu ar waith cyn dyddiad dechrau'r modiwl, mae'n rhaid bod yr effaith ar eich astudiaethau wedi bod yn fwy na'r hyn y gellid bod wedi'i ddisgwyl yn rhesymol.</p>	<p>Hysbysiad ar ffurf copi caled neu e-bost, a ddilynir gan dystiolaeth ddogfennol, e.e. llythyr neu ddatganiad meddygol gan feddyg teulu, meddyg ymgynghorol, cynorthwydd anfeddygol neu berson neu sefydliad cymorth yn cadarnhau'r sefyllfa.</p>
--	--	---

<p>Rhif y fersiwn: 1.0</p>	<p>Cymeradwywyd gan: Cynrychiolydd y Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Academaidd</p>
<p>Yn weithredol o: 1 Awst 2021</p>	<p>Dyddiad adolygu: 1 Mawrth 2022</p>